a

# Ad ad G a
# A a dd

Y Ad

## Cynnwys

**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd** .... **1**
**Yr adolygiad yma** .... **1**
**Ynghylch Prifysgol Metropolitan Caerdydd** .... **2**
**Y beirniadaethau am Brifysgol Metropolitan Caerdydd** .... **4**
Y canmoliaethau .... 4
Y cadarnhadau .... 4
Argymhellion .... 5
**Rhagor o wybodaeth** .... **5**

## Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth

gyflawnwyd, a lofnodwyd ac sy'n gyfredol. Roedd y dogfennau a oedd yn eisiau wedi'u harwyddo a'u harchifo ac roedd y prosesau monitro wedi'u tynhau. Yr argymhelliad olaf oedd y dylid sicrhau eglurder dogfennaeth ffurfiol mewn perthynas â threfniadau trosglwyddo. Roedd y paramedrau ar gyfer trosglwyddo wedi'u gwneud yn eglur a hyfforddiant wedi'i roi i staff perthnasol.

Gofynnodd y Brifysgol i'r adolygiad ystyried pum maes i ganolbwyntio arnynt, a ddewiswyd i adlewyrchu meysydd gwella sydd ar gamau gwahanol yn eu datblygiad: Ymgysylltiad Myfyrwyr; Partneriaeth; Ymgysylltu Dinesig a Chyfrifoldeb Cymdeithasol; Defnyddio Data i Yrru Ansawdd; a Chyflogadwyedd Graddedigion. Dewiswyd y ddau faes olaf gan y Brifysgol fel meysydd ble roedd heriau wedi'u nodi.

## Y beirniadaethau am Brifysgol Metropolitan Caerdydd

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd nifer o ganmoliaethau, sydd wedi eu crynhoi isod

- Y cyfraniad cryf a wnaed gan y Deoniaid Cysylltiol Ymgysylltiad Myfyrwyr yn cryfhau ymgysylltiad myfyrwyr a phartneriaeth rhwng myfyrwyr a’r Brifysgol.

- Dull arbennig o ragweithiol y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth i wella lefel y gefnogaeth i fyfyrwyr ymhellach, yn enwedig yn ystod y pandemig.

- Effaith mentrau’r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd yn sicrhau y caiff ansawdd